Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Costau Adnewyddu Tŷ Hywel

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 20 Ionawr, pan wnaethoch ofyn am:

1) *Y gost gyffredinol o adnewyddu'r fynedfa yn adeilad Tŷ Hywel;*
2) *Dadansoddiad wedi'i eitemeiddio o'r holl gostau yn sgil y gwaith adnewyddu;*
3) *Cost y meinciau llechen ym mynedfa adeilad Tŷ Hywel;*

Croesewir dros 30,000 o ymwelwyr i'n hystâd drwy dderbynfa Tŷ Hywel bob blwyddyn. Plant a phobl ifanc yw dros hanner yr ymwelwyr hyn, sy'n aml yn cyrraedd mewn grwpiau mawr ac yn ymgysylltu â'n rhaglen addysg sydd wedi'i lleoli yn Siambr Hywel.

Mae dogfen gyllid y Comisiwn ar gyfer 2013-14 sydd ar gael yma yn nodi pa mor bwysig yw hi fod Comisiwn y Cynulliad yn darparu 'lleoliad i Gymru' drwy gyfrwng ystâd y Cynulliad, ac yn blaenoriaethu'r angen i barhau i gynnal ein hadeiladau i safon uchel er mwyn rhoi profiad gwych i'n hymwelwyr.

Mae codi'r fynedfa dan do hon yn ateb ymarferol a chymedrol i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â hygyrchedd, diogelwch a chynaliadwyedd.

1) *Y gost gyffredinol o adnewyddu ardal y fynedfa yn adeilad Tŷ Hywel;*

Cyfanswm y gost o adnewyddu'r fynedfa oedd £278,705.02.

2) *Dadansoddiad wedi'i eitemeiddio o'r holl gostau yn sgil y gwaith adnewyddu;*
3) *Cost y meinciau llechen ym mynedfa adeilad Tŷ Hywel;*

Rwyf wedi ateb y ddau gwestiwn hyn yn y tabl isod:

| Eitem | Cyfanswm |
|---|---:|
| Mynedfa dan do | 64,320.00 |
| Desg y dderbynfa gan gynnwys nodwedd i'r nenfwd | 35,518.85 |
| Gosodiadau trydanol | 31,277.90 |
| Gosodiadau peirianyddol | 25,085.40 |
| Gwaith adeiladu ac addurno mewnol | 46,097.37 |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email: Buddug.Saer@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

| | |
|---|---|
| Meinciau llechen | 4,440.00 |
| Ystafelloedd cyfarfod hyblyg | 21,251.29 |
| Materion rhagarweiniol | 16,006.91 |
| Dymchweliadau a chlirio'r safle | 10,324.80 |
| Rheoli'r prosiect a ffioedd | 24,382.50 |

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF